Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.01.2021

## Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector Cronfa Cadernid Economaidd COVID-19 yn cau 12:00pm 29 Ionawr 2021

Bydd Cronfa Cymorth Penodol i'r Sector, a weinyddir gan Busnes Cymru, sydd wedi'i dargedu at fusnesau Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden a busnesau cadwyn gyflenwi cysylltiedig sydd wedi eu heffeithio'n sylweddol (mwy na 60% o effaith ar drosiant) o ganlyniad i'r cyfyngiadau gyflwynwyd yn Rhagfyr 2020 yn cau am 12:00pm 29 Ionawr 2021 neu yn gynt os ydi'r cyllid wedi ei ymrwymo'n llawn. Mae'r galw am y Gronfa wedi bod yn uchel – felly peidiwch ag oedi! I ddefnyddio'r gwiriwr cymhwysedd i adolygu'r meini prawf ac i ymgeisio, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/sectorspecificgrant/cy

I ddarllen canllawiau'r gronfa, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cymorth-penodol-ir-sector-cronfa-cadernid-economaidd-erf

- Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd

Mae cymorth ar gael i fusnesau sydd wedi gorfod cau, neu wedi dioddef gostyngiad o 40% neu fwy yn eu trosiant, o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfyngiadau newydd. Mae busnesau cymwys, sydd heb dderbyn cymorth neu heb ymgeisio eto, yn cael eu hannog yn gryf i wneud hynny drwy gwblhau ffurflen gais syml. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i:

https://bit.ly/CronCyfRhag2020

# Cronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon wedi ail-agor

Mae'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon wedi'i chynllunio i helpu gweithwyr llawrydd ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol i adfer y colledion maent wedi'u profi o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r gronfa ar gyfer gweithwyr llawrydd y mae eu gwaith yn darparu gweithgarwch yn uniongyrchol i gyfranogwyr (e.e. hyfforddwyr personol, cyfarwyddwyr/ ymarferwyr a hyfforddwyr cyflogedig) sydd wedi colli o leiaf £2,500 o incwm oherwydd pandemig COVID-19. Bydd gweithwyr llawrydd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn cael £2,500 i adfer eu colledion. Dylid nodi, os cawsoch chi gefnogaeth drwy rownd 1 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd, NID YDYCH yn gymwys am gefnogaeth yn yr ail rownd yma. Am fwy o wybodaeth, ac i ymgeisio, ewch i:

https://www.chwaraeon.cymru/cynnwys/cronfagweithwyrllawrydd/

# COVID-19 yng Ngwynedd – straen newydd yn lledaenu'n gyflym

Mae grŵp aml-asiantaeth Gwyliadwriaeth ac Ymateb COVID-19 Gwynedd wedi rhybuddio holl drigolion Gwynedd ei bod hi'n hanfodol iddyn nhw gydymffurfio yn llwyr â rheolau Llywodraeth Cymru er mwyn atal y twf presennol mewn achosion, ac wedi rhyddhau Datganiad i'r Wasg ynglŷn â'r sefyllfa. I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd19Ion2021

Mae canllawiau cynhwysfawr ar gyfer Lefel Rhybudd 4 ar gael yma;

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-4

Ma Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i gryfhau'r ddeddfwriaeth i sicrhau bod gweithleoedd a siopau'n fwy diogel. I weld y datganiad Cabinet yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwygio-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-2020

# Gweminar newid telerau ac amodau cyflogaeth: osgoi camgymeriadau costus 26 Ionawr 2021

I lawer o fusnesau, mae'r deg mis diwethaf wedi bod yn gyfnod heriol. Wrth i Gynllun Cadw Swyddi Coronavirus ddod i ben ar 31 Mawrth 2021, nawr yw'r amser i gyflogwyr ystyried eu cynlluniau ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Fel rhan o'r broses, mae'n bosib y bydd rhai cyflogwyr yn edrych ar ffyrdd o leihau eu costau, naill ai dros dro neu'n barhaol, trwy newid telerau ac amodau cyflogaeth. Bydd y weminar hon gan Fusnes Cymru, wedi'i chyflwyno gan Jennifer Gibson o Gyfreithwyr Lanyon Bowdler, yn arwain cyflogwyr trwy'r broses o wneud newidiadau cyfreithlon i delerau cyflogaeth gytundebol yn ogystal â thrafod sut i osgoi problemau posib. Mae'r weminar yn cael ei chynnal ar 26 Ionawr 2021 o 10:00am – 11:00am. Am ragor o wybodaeth ac er mwyn archebu eich lle, naill ai ffoniwch 01745 585025, anfonwch e-bost i: northwales@businesswales.org.uk, neu ewch i:

http://bit.ly/2YdvpUg

# Digwyddiadau rhithwir Cywain

Mae Cywain yn darparu cefnogaeth fusnes a chefnogaeth i ddatblygu cynnyrch ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru. Os ydych chi eisoes yn gleient i Cywain neu'n un o entrepreneuriaid y dyfodol sy'n ystyried cychwyn busnes bwyd a diod yng Nghymru, dyma'r math o ddigwyddiadau rhithwir gallwch chi fanteisio arnynt. Cysylltwch â Chywain heddiw i ddarganfod mwy am eu prosiect a'r hyn y gallant ei wneud i'ch helpu chi, ewch i:

https://menterabusnes.cymru/cywain/en/digwyddiadau/

## Digwyddiad Rhithwir ION Leadership “Dringo Allan o Covid” – 28 Ionawr 2021

Mae ION Leadership yn eich croesawu i ymuno â nhw ar gyfer digwyddiad rhithwir am 11:00am 28 Ionawr 2021. Mae wedi bod yn gyfnod anodd i bawb, felly beth am ymuno â ION Leadership a darganfod strategaethau ymarferol ar gyfer adeiladu eich gwytnwch meddyliol. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal trwy Zoom.

E-bostiwch: ionleadership@bangor.ac.uk i archebu’ch lle

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru